Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1082 (Cy. 186)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993").

Mae Rheoliadau 1993 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir newid rhestr brisio. Mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau hynny yn pennu'r diwrnod y mae newid yn cael effaith ohono.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diwrnod y mae newid yn cael effaith ohono pan fydd y rhestr yn cael ei newid oherwydd cynnydd materol yng ngwerth eiddo, a phan ddylid trin annedd fel dwy annedd neu ragor yn unol â Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy) 1992 (O.S. 1992/549). O dan y ddau amgylchiad mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r diwrnod fel y diwrnod y cofnodir y newid yn y rhestr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1082 (Cy. 186)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Hydref 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Hydref 2023* |
| *Yn dod i rym* | *8 Tachwedd 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 24(1) a (7)(a) a 113(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Tachwedd 2023.

(**1**) 1992 p. 14.

(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adrannau 24 a 113 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weinidogion Cymru ac maent bellach wedi eu breinio ynddynt i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiadau i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4(1A)(a), ar ôl "paragraph" mewnosoder "(5A),".

(3) Yn rheoliad 14—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) An alteration reflecting a material increase in the value of a dwelling has effect from the day on which the alteration is entered in the list.";

(b) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Subject to regulation 4(1A), where an alteration—

(a) is made to correct an inaccuracy in a list, and

(b) the inaccuracy was to show as one dwelling property which should have been treated as two or more dwellings by virtue of article 3 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992(**2**),

the alteration shall have effect from the day on which the alteration is entered in the list.";

(c) yn lle paragraff (6)(a) rhodder—

"(a) in a case where the inaccuracy was to show as applicable to a dwelling a valuation band which is lower than the band which should have been determined or shown as applicable to it, from the day on which the alteration is entered in the list;";

(d) yn lle paragraff (7) rhodder—

"(7) Subject to regulation 4(1A), where an alteration—

(a) is made to correct an inaccuracy in a list (other than an alteration which falls to have effect as provided in the foregoing provisions of this regulation), and

(b) the inaccuracy arose in the course of making a previous alteration and was to show as applicable to a dwelling a

---

(**1**) O.S. 1993/290, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/77 (Cy. 18); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/549, a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/2653 (Cy. 261); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

valuation band which is lower than the band which should have been determined or shown as applicable to it,

the alteration has effect from the day on which the alteration is entered in the list."

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
11 Hydref 2023